Adeiladu'r Dyfodol

Cartrefi Cymunedol Cymru

# PEIDIWCH COLLI'R CYFLE!

## Cynhadledd Flynyddol CHC

## 15-16 Tachwedd 2018

**Sut y gallwn adeiladu ar ein gweledigaeth Gorwelion Tai a sicrhau fod cartref da yn hawl sylfaenol i bawb yng Nghymru?**

> **Y ffordd orau i ragweld y dyfodol yw ei greu.**

- Abraham Lincoln

**I gael mwy o wybodaeth, ewch i:**
**chcymru.org.uk/events/view 2018-annual-conference**

*Y cam nesaf ar ein taith*
**Gorwelion Tai**

# Cynhadledd Flynyddol 2018

## Gwesty Mercure Holland House | 15/16 Tachwedd 2018

## Dydd Iau 15 Tachwedd

| | |
|---|---|
| **09:00AM** | **Cofrestru, Lluniaeth a Rhwydweithio**<br>***Cyntedd Ystafelloedd Calon*** |

| | |
|---|---|
| **09:30AM** | **Croeso** |
| | **Ystafelloedd Calon 1** |
| | ***Sian Lloyd, Darlledwraig a Newyddiadurwraig - Cadeirydd y Gynhadledd***<br>***@SianLloydnews*** |

| | |
|---|---|
| **09:40AM** | **Gosod y Llwyfan - Adeiladu ein Dyfodol** |
| | ***Stuart Ropke, Prif Swyddog Gweithredol, Cartrefi Cymunedol Cymru***<br>***@Stuart_CHC*** |
| | Wrth i adolygiad annibynnol Llywodraeth Cymru o bolisi tai fforddiadwy ystyried cyfeiriad y sector ar gyfer y dyfodol, bydd Stuart yn trafod cynlluniau CHC ar gyfer cyflawni gweledigaeth Gorwelion Tai y sector a rhoi ei farn ar ble nesaf i'r sector. |

| | |
|---|---|
| **10:00AM** | **Beth nesaf i'r economi?** |
| | ***Trevor Williams,*** **Cadeirydd, Sefydliad Materion Economaidd, Pwyllgor Cysgodol Polisi Ariannol** |
| | Trevor Williams yw cyn Brif Economegydd Bancio Masnachol Banc Lloyds, swydd y bu ynddi am ymhell dros 10 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw sefydlodd dîm o economegwyr uchel eu parch ac a enillodd wobrau yn dadansoddi data byd-eang a domestig i gefnogi cleientiaid yn amrywio o sefydliadau ariannol i gorfforaethau mawr a busnesau bach a chanolig gyda dirnadaeth pwrpasol. |

| | |
|---|---|
| | Dewch i glywed ei sylwadau ar y darlun economaidd ar draws y Deyrnas Unedig, yn cynnwys yr hyn y gallai Brexit ei olygu i ffyniant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **10:45AM** | **Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio Ystafelloedd Calon 2** |

| | |
|---|---|
| **11.00am** | **Anerchiad y Gweinidog** |
| | **Ystafelloedd Calon 1** |
| | ***Rebecca Evans AC, Gweinidog Tai ac Adfywio***<br>***@WGMin_Housing*** |
| | Wrth i'r adolygiad annibynnol o dai fforddiadwy fynd rhagddo, byddwn yn clywed gan Rebecca Evans AC wrth iddi fwrw golwg yn ôl ar ei blwyddyn gyntaf yn ei swydd ac amlinellu ei huchelgais ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad. |

| | |
|---|---|
| **11.30pm** | **Pam y Cawn y Gwleidyddion Anghywir** |
| | ***Isabel Hardman, Newyddiadurwraig Wleidyddol a Golygydd***<br>***Cynorthwyol The Spectator***<br>***@IsabelHardman*** |
| | Caiff gwleidyddion yn gyson eu dewis fel y grŵp proffesiynol y mae cyhoedd y Deyrnas Unedig yn ymddiried lleiaf ynddynt. Buont mewn trafferthion yn ddiweddar oherwydd sgandalau'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol a threuliau. Bob blwyddyn, maent yn cyflwyno deddfwriaeth newydd nad yw'n cyflawni'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud - yn aml gyda chostau ariannol a dynol ofnadwy. Ond, gyda rhai eithriadau nodedig, maent yn bobl deg sy'n gweithio'n galed mewn swydd anodd a chaled tu hwnt.<br><br>Yn yr archwiliad treiddgar hwn o'n dosbarth gwleidyddol, aiff y newyddiadurwraig wobrwyol Isabel Hardman ati i geisio sgwario'r |

| | |
|---|---|
| | cylch. Mae'n codi'r clawr ar fyd rhyfedd San Steffan ac yn gofyn pam y cawn gynrychiolwyr yr ydym mor anhapus gyda nhw. |

| | |
|---|---|
| **12.30 pm** | **Cinio Rhwydweithio** |

| | |
|---|---|
| **13:30PM** | **Manteisio i'r Eithaf ar Ddifidend Datganoli** |
| | ***Kellie Beirne, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd***<br>***Steve Partridge, Bargen Ddinesig Manceinion a Bargen Twf Gogledd Cymru***<br>***Katie Teasdale, Ffederasiwn Tai Cenedlaethol***<br>***@kelliebeirne @Savills @NatFedKatie*** |
| | Wrth i fargeinion Dinas a Thwf ddatblygu ym mhob rhan o Gymru, bydd ein panel yn ystyried sut gall tai chwarae rhan yn y setliadau datganoli lleol newydd.<br>Bydd hefyd gyfle i glywed gan rai a weithiodd yng nghanol rhai o'r Bargeinion Dinesig mwyaf yn Lloegr, ac ystyried cyhoeddiad Gorwelion Tai CHC ar gydweithredu.*<br>(*I'w gyhoeddi cyn y Gynhadledd Flynyddol) |

| | |
|---|---|
| **14:15pm** | **Iechyd a Thai - Adeiladu Cymru Iachach** |
| | ***Dr. Andrew Goodall, Prif Swyddog Gweithredol GIG Cymru***<br>***@nhsgoodalla*** |
| | Mae gan dai da rôl allweddol wrth sicrhau gwell canlyniadau iechyd. Bydd y sesiwn yn clywed sylwadau Dr Andrew Goodall ar swyddogaeth tai wrth gyflawni 'Cymru Iachach' - cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| **14:30 PM** | **Gweithdai**<br><br>**Canlyniadau Pawb ar eu Hennill ar gyfer Cymunedau: Sut i sicrhau'r cyfuniad delfrydol o ddulliau gweithredu cyfreithiol ac adferol ar gyfer llwyddiant mewn Rheoli Tai [Cydweithredu]** |
| | Julia Houlston Clark, Partneriaeth Dulliau Adferol Cymru<br>Bethan Gladwyn, Hugh James Cyfreithwyr<br><br>@WalesRAP @HughJamesLegal |
| | **Ystafelloedd Cydweli** |
| | Mae Hugh James yn lansio cynghrair gyda Phartneriaeth Dulliau Adferol Cymru (WRAP) i greu datrysiad un-stop arloesol at Reolaeth Tai. Bydd Bethan Gladwyn, Partner yn Nhîm Tai Cymdeithasol Hugh James a Julia Houlston Clark o WRAP yn dod ynghyd i ymchwilio'r opsiynau sydd ar gael wrth ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut y gellir plethu'r broses gyfreithiol gydag arferion adferol i gael y canlyniadau cywir i bawb.<br><br>Drwy gefnogi adeiladu, cynnal ac atgyweirio perthnasoedd, mae gan y dull gweithredu hwn y potensial i fynd â'r drwgdeimlad allan o brosesau cyfreithfa, mynd i'r afael â'r nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a rhoi'r offer i reolwyr tai maent eu hangen i gynnal sgyrsiau adferol gyda thenantiaid a chydweithwyr, gan arwain at ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer cymdeithasau tai a'u cymunedau.<br><br>Ymunwch â'r sesiwn rhyngweithiol yma i drafod sut y gallai'r dull gweithredu hwn fod o fudd i'ch sefydliad a chlywed rhai enghreifftiau bywyd go-iawn o'i roi ar waith yn ymarferol. |

## Darparu gwasanaethau addas ar gyfer y 21ain Ganrif [Technoleg]

***Dominic Campbell***

***Prif Swyddog Gweithredol FutureGov***

***@dominiccampbell***

**Ystafelloedd Aberhonddu**

Mae Dominic Campbell yn arbenigydd mewn llywodraeth ddigidol ac yn arloesydd cymdeithasol gyda chefndir mewn polisi llywodraeth, cyfathrebu a newid dan arweiniad technoleg.

Mae'n asiant newid sefydliadol profiadol gyda phrofiad uwch reoli wrth weithredu cynlluniau newid llwyddiannus o fewn y sector llywodraeth leol, gyda phrif ddiddordeb yn y defnyddiau sy'n dod i'r amlwg o gyfryngau newydd a strategaethau "cymdeithasol" i sicrhau trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ac arloesi cymdeithasol.

Bydd y sesiwn yn trin sut y gallwn ddefnyddio technoleg i sicrhau trawsnewid gwirioneddol a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cleientiaid ar gost llawer is, a bydd yn cynnwys y dilynol:

- Bwrw golwg ar waith Dominic yn Homes England
- Sut i ddylunio gwasanaethau ar gyfer yr oes ddigidol
- Sut i ddefnyddio dulliau digidol i gyflawni gweledigaeth y sector
- Digidol - dod â phobl gyda chi, sut y gallwn wneud hynny?

## Pam fod pob busnes angen Pobl Greadigol [Sgiliau]

***Cassie Houghton, Maes Awyr Caerdydd a Morgan Lloyd, Dŵr Cymru***

**Ystafelloedd Caerffili**

Mae pobl broffesiynol greadigol yn ganolog mewn unrhyw fusnes sy'n gweithredu'n llwyddiannus. Ond sut mae sefydliadau nad ydynt yn gweithredu o fewn y sector creadigol mewn gwirionedd yn ymwreiddio pobl greadigol yn eu gweithlu i helpu cyflawni canlyniadau busnes?

| | |
|---|---|
| | Dewch i glywed gan Dŵr Cymru a Maes Awyr Caerdydd ar sut maent yn cyflogi, cadw a datblygu'n broffesiynol bobl greadigol sydd wedi ymwreiddio yn eu sefydliadau i sicrhau canlyniadau'r busnes. |

| | |
|---|---|
| | **Safleoli tai fel allwedd i economi ffyniannus yng Nghymru<br>[Arweinyddiaeth]** |
| | **Jenny Brown, Pennaeth Tai Cymdeithasol a Rhian Owen, Partner Archwilio Cymru a De Orllewin Lloegr<br>Grant Thornton UK<br>*@rhianowen_gt*<br>*@jemblewren*** |
| | **Ystafelloedd Calon 1** |
| | Gwyddom fod cymdeithasau tai yn cael effaith enfawr ar yr economi yng Nghymru, ond ni chaiff hyn ei gydnabod bob amser. Beth fwy fedrwn ni wneud i gynyddu proffil ein cyfraniad?<br><br>Dewch i glywed gan Grant Thornton am eu prosiect 'Economi Ffyniannus' a'u sylwadau ar sut y gallwn safleoli ein hunain fel partneriaid o ddewis. |

| | |
|---|---|
| **15:30 PM** | **Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio** |

| | |
|---|---|
| **16:00PM** | **Saffari Tlodi** |
| | *Darren 'Loki' McGarvey, Artist Hip Hop a Sylwebydd Cymdeithasol*<br>*@lokiscottishrap* |
| | **Ystafelloedd Calon 1** |
| | Caiff Darren ei adnabod gan ei enw llwyfan Loki, artist recordio hip hop a sylwebydd cymdeithasol sy'n tanlinellu cyfrifoldeb cymunedol a chymdeithasol. Roedd yn weithgar iawn yn ystod refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014 ac yn 2015 cyflogwyd loki fel rapiwr preswyl yn uned gostwng trais Police Scotland.<br>Enillodd Wobr Orwell yn ddiweddar am ei lyfr cyntaf 'Poverty Safari', a gyflwynir i awduron gwleidyddol, am ei ddatguddiad cignoeth o dlodi ym Mhrydain.<br>Mae Darren yn gwahodd cynrychiolwyr i ddod ar saffari o fath - Saffari Tlodi; nid dim ond galarnad yn erbyn llymder ond emyn o glod i rym yr unigolyn. |

| | |
|---|---|
| **16:45PM** | **Diwedd Diwrnod 1** |

| | |
|---|---|
| **17.00pm** | **Cyfrfod Cyffredinol Blynyddol CHC**<br>*Cadeirir gan Debbie Green, Cadeirydd CHC*<br>*a Phrif Weithredydd, Grŵp Tai Coastal* |

| | |
|---|---|
| **19:30PM**<br><br>**20:00PM** | **Derbyniad Diodydd**<br>***Lobi Ystafelloedd Calon***<br>**Cinio'r Gynhadledd**<br>**Siaradwr Ar ôl Cinio – Sean Holley, Dadansoddwr a Sylwebydd Teledu ar Rygbi** |

## Dydd Gwener 16 Tachwedd

| | |
|---|---|
| **09:00AM** | **Cofrestru a Rhwydweithio**<br>**Lobi Ystafelloedd Calon** |

| | |
|---|---|
| **09:30AM** | **Arwain mewn byd aflonydd** |
| | **Ystafelloedd Calon 1** |
| | ***Lucy Adams, Disruptive HR***<br>***@hr_disruptive*** |
| | 'Yr unig beth sy'n gyson yw newid', ac mae hyn yn wir am y sector tai cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Gan ddefnyddio ei phrofiad o arwain newid cymhleth a bod yn bennaeth adnoddau dynol mewn sefydliadau mawr, bydd Lucy Adams yn codi cwr y llen ar ffyrdd newydd o arwain drwy aflonyddwch.<br><br>Sefydlwyd DISRUPTIVE HR gan Lucy Adams a fu â swyddi adnoddau dynol lefel Bwrdd am dros 10 mlynedd, yn fwyaf diweddar yn y BBC. Gan gyfuno arbenigedd strategol a gwiethredol mewn adnoddau dynol gyda dull gweithredu ffres ond ymarferol, ei nod yw rhoi'r "dynol" yn ôl mewn Adnoddau Dynol. |

| | |
|---|---|
| **10:15AM** | **Adolygiad Tai Fforddiadwy - Diweddariad** |
| | ***Lynn Pamment, Cadeirydd, Panel Annibynnol, Adolygiad Tai Fforddiadwy***<br>***@PammentLynn*** |
| | Mae'r adolygiad yn edrych ar y cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru yn mynd rhagddo, gyda'r panel annibynnol i adrodd i'r Gweinidog ym mis Ebrill.<br><br>Bydd Lynn yn siarad am farn y panel ar y sgyrsiau hyd yma. |

| | |
|---|---|
| **11:00AM** | **Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio**<br>***Ystafelloedd Calon 2*** |
| **11:30AM** | **Gweithdai Adolygiad Tai Fforddiadwy** |
| | *Cyfle cynnar i bori ymhellach yn yr Adolygiad Tai Fforddiadwy.*<br>*Sesiwn a siaradwyr i gael eu cadarnhau* |
| **12:30 pm** | **Cyflawni ein gweledigaeth dechnolegol** |
| | ***Shivvy Jervis, Dyfodolwraig wobrwyol, 30 Menyw Uchaf Ewrop mewn Digidol***<br>***@shivvyjervis*** |
| | Wedi'i dewis yn arweinydd syniadau 'gwneud i Brydain ddigidol dicio', mae Shivvy Jervis wedi ennill llawer o wobrau fel dyfodolwraig, cynghorydd a chyflwynydd ar yr economi digidol. Mae wedi ei gwneud yn genhadaeth iddi ei hun ddadlennu arloeseddau sy'n torri tir newydd fydd yn trawsnewid ein realaeth, ac mae wrthi'n ysgrifennu llyfr uchelgeisiol ar yr un thema. Bydd hyn yn ei gweld yn chwilio ym mhob rhan o'r byd am y datblygiadau mwyaf grymus a phwrpasol yn y degawd nesaf.<br>Gyda thechnoleg yn thema allweddol yn Gorwelion Tai, bydd Shivvy yn trafod sut y gall cymdeithasau tai addasu i ddyfodol technolegol. |
| **13.30 pm** | **Diwedd Diwrnod 2**<br>***Casgliadau'r Gynhadledd*** |
| **13.40 pm** | **Cinio a Gadael**<br>**Ystafelloedd Calon 2** |